Bangor University

DOCTOR OF PHILOSOPHY

# Ei phwer ni phaid: gwragedd ym myd baledi'r 19eg ganrif

Jones, Gwawr

*Award date:*
2010

*Awarding institution:*
Bangor University

Link to publication

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 03. Apr. 2025

## Cyflwyniad

Ceir priodas unigryw rhwng alaw a geiriau, a’r briodas honno wedi bodoli ar hyd y canrifoedd. Yn y Gymru Gymraeg, mae cerddoriaeth a chaneuon gwerin yn elfen gynhenid o’r fagwraeth draddodiadol, ac yn sicr, cefais innau fy nhrwytho yn y traddodiad hwn. Mae’r diddordeb hwnnw rhwng y gair a’r gân wedi bodoli ynof erioed, a pharhaodd y diddordeb hyd ddyddiau Prifysgol lle’r astudiais am radd gyd-anrhydedd mewn Cerddoriaeth a Chymraeg ac chanolbwyntio ar y briodas hon gyda manylder.

Nod a bwriad y traethawd hwn yw camu yn ôl i fyd baledwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cloddio i fyd y ferch yng nghyd-destun y baledi yng nghasgliad Cerddi Bangor yw’r amcan penodol, ac asesu a dysgu am ei chyfraniad a’i statws ar yr aelwyd ac yn y gymdeithas ehangach. Mae’r baledwyr yn gymeriadau sydd wedi diflannu o’n cymdeithas yn yr unfed ganrif ar hugain i raddau helaeth. Ond, mae eu dylanwad, eu ffraethineb, eu personoliaethau a’u sylwebaeth graff o’r gymdeithas yn parhau i’n diddori hyd heddiw. Yn bennaf, canolbwyntir yma ar agweddau llenyddol a’r themâu yn y baledi, ond sonnir yn ogystal am yr alawon sy’n cyd-fynd â’r geiriau a’r berthynas rhwng y dôn a’r geiriau. Rwyf yn fwriadol wedi osgoi trafod y baledi sy’n ymwneud â gwŷr y cyfnod, ond heb eu halltudio yn llwyr o’r ymdriniaeth ychwaith! Cafwyd cyfrol eisoes sy’n ymwneud â merched ym maledi’r ddeunawfed ganrif, felly cyfyngir y traethawd hwn i’r bedwaredd ganrif ar bymtheg gan ganolbwyntio ar gymdeithas y cyfnod a’r modd y’i hadlewyrchir ym maledi’r cyfnod.

Mae’r wybodaeth gyffredinol a geir am y baledi ym mhob cyfnod yn lled gyfoethog, ond prin yw’r ymdriniaeth ar y wraig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Aethpwyd

i’r afael felly â’r amrywiaeth a geir o fewn ei phersonoliaeth wrth gamu o’r naill thema i’r llall a’r agwedd gymdeithasol tuag ati a ddaw i’r amlwg trwy gyfrwng y baledi. Fy nod a’m hamcan felly yw cyfleu’r cyfoeth a’r amrywiaeth ym myd a bywyd y ferch yng nghyd-destun amlochrog y baledi yng nghasgliad Cerddi Bangor.

Crynodeb

Mae'r baledi wedi denu cryn sylw yn ystod yr hanner canrif ddiwethaf, gyda haneswyr a llenorion fel ei gilydd yn ailddarganfod y cyfoeth a'r ffraethineb a geir ynddynt. Ceir sylwebaeth graff ar y gymdeithas a gwelir eu dawn ddigamsyniol wrth grisialu bywydau'r werin bobl yn y baledi. Ond er gwaethaf cyfoeth yr wybodaeth gyffredinol a gafwyd am y canu hwn, prin yw'r drafodaeth ar rôl a statws y wraig yn y baledi. Alltudiwyd y ferch i raddau helaeth yng nghymdeithas y cyfnod pe credid y llyfrau hanes, yn bennaf am mai dynion oedd yr awduron. Caiff y ferch ei chyfleu fel cymeriad a phersonoliaeth israddol i'w gŵr ac i'r rhyw wrywaidd yn gyffredinol. Ond, rhydd y baledi ddarlun lled wahanol i'r hyn a welir yn y llyfrau hanes yn gyffredinol. Un o amcanion y traethawd hwn yw cyfosod y ddwy ddelwedd hyn; y naill yn dangos cymeriad israddol, gorthrymus a'r llall yn cyfleu cymeriad unigol, grymus a oedd yn llywio ac yn ganolbwynt ei haelwyd a'i chymuned.

Astudiaeth benodol o faledi Bangor a geir yn y traethawd hwn. Dylid cymryd yn ganiataol felly mai baledi o gasgliad Cerddi Bangor yw pob cyfeiriad yn y traethawd, oni nodir yn wahanol. Canolbwyntiwyd yn ogystal ar y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn benodol, er y ceir adargraffiadau yn ymddangos yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg o faledi'r ddeunawfed ganrif. Roedd baledi blynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn perthyn yn agos at rai flynyddoedd olaf y ddeunawfed ganrif, o ran ffurf, arddull a'r deunydd a apeliai at gynulleidfaoedd y cyfnod. Penderfynwyd canolbwyntio'n benodol ar gasgliad Cerddi Bangor yn y traethawd hwn i dynnu sylw at y cyfoeth o ddeunydd sydd ar gael yn y casgliad penodol hwnnw. Oherwydd arfer y baledwyr o deithio ar hyd a lled y wlad, a'u hysfa am stori, ni chyfyngir y casgliad i

faledi o ogledd Cymru yn unig. Ceir baledi yn y casgliad a sonia am ddigwyddiadau yn Llanybydder, pentref nepell o Lanbedr Pont Steffan, protestiadau Merched Beca yn ardaloedd de-orllewin Cymru, yn ogystal â baledi am lofruddiaethau o ardaloedd Castell-nedd a thros Glawdd Offa a'r thu hwnt.

Casgliad o eiddo D. G. Goodwin yw casgliad Cerddi Bangor, sef casgliad a brynodd oddi wrth John Jones, neu Myrddin Fardd. Yn gasglwr brwd, lluniodd Myrddin Fardd lyfryddiaeth o'r holl faledi yn ei feddiant; llyfryddiaeth a gafodd ei chyhoeddi yn *Y Traethodydd* rhwng 1886 ac 1892.[1] Ceir baledi'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yng nghasgliad Cerddi Bangor, casgliad hynod gyfoethog o ran cynnwys a niferoedd. O ganlyniad i'r cyfoeth parod sydd ar gael ym maledi casgliad Prifysgol Bangor, penderfynwyd astudio'r baledi o'r casgliad hwnnw ar gyfer y traethawd hwn. Nid oes astudiaeth fanwl wedi'i gwneud hyd yma o gasgliad Cerddi Bangor yn benodol. Penderfynwyd canolbwyntio ar y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn benodol a rôl y wraig yn y cyd-destun hwnnw. Ceir cyfrol gyfoethog eisoes ar y wraig ym maledi'r ddeunawfed ganrif gan Dr Siwan Rosser, ond mae astudiaeth o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn enwedig yng nghyd-destun baledi Bangor, ar y cyfan wedi'i hesgeuluso.

Ni ellir gwerthfawrogi'r baledi yn eu gogoniant heb eu clywed ar gân. Yn y briodas rhwng y geiriau a'r alaw daw rhinwedd y ffurf i'r amlwg. Tueddir yn gyffredinol i hepgor yr alawon pan drafodir y baledi gan ganolbwyntio ar neges, cyd-destun cymdeithasol ac arwyddocâd y baledi i'w cyfnod. Ni cheir trafodaeth fanwl yn y traethawd hwn ar yr alawon. Fodd bynnag, rhoddir enghreifftiau hwnt ac yma o'r alawon a ddefnyddiwyd gan

---

[1] J. H. Davies, *A Bibliography of Welsh Ballads printed in the 18th century* (London, 1911)

faledwyr y cyfnod. Yn yr atodiad ar ddiwedd y traethawd, nodir yr alawon a briodolir â'r baledi er mwyn rhoi darlun cliriach i ni o'r alawon a ddefnyddiai'r baledwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ni cheir dadansoddiad yma ychwaith o ffurfiau cerddorol yr alawon gwerin a ddefnyddiwyd, ond ceir trafodaeth lle bo'n briodol ynghylch perthynas yr alaw â'r faled dan sylw. Yn y cyfnod, byddai'r alaw yn elfen anhepgor o'r perfformiad a cheir straeon am faledwyr yn recriwtio cantorion i ganu'u baledi ar eu rhan i ychwanegu at y perfformiad ac apêl gyffredinol y faled. Amhosibl felly fyddai hepgor yr alawon yn gyfan gwbl o'r astudiaeth hon.

Yn y bennod gyntaf, rhoddir cyd-destun cyffredinol bywyd gwerinol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y gymdeithas a'r bobl hynny a drigai ynddi oedd deunydd crai y baledwyr. Felly, er mwyn deall cyd-destun ac arwyddocâd y baledi yn llawn, rhaid deall a gwerthfawrogi'r sefyllfa yng Nghymru ac ym Mhrydain yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceir amlinelliad o'r sefyllfa economaidd, wleidyddol, crefyddol a chymdeithasol; themâu a oedd yn ganolog i nifer helaeth o faledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn ymwneud yn uniongyrchol â hwy. Trafodir tlodi'r cyfnod; statws y wraig yn y cartref; sut yr ystyriwyd merch ifanc a feichiogai y tu allan i briodas; crefydd a barn Duw ar bobl y cyfnod; llofruddiaethau a chariad rhwng dau ddosbarth cymdeithasol – i grybwyll ond ychydig o'r themâu hynny yr eid i'r afael â hwy.

Trafodir byd y baledwyr yn yr ail bennod gan fynd i'r afael â'r math o fywyd a fyddai'n nodweddiadol o faledwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ogystal, rhoddir sylw manwl i rai o faledwyr mwyaf poblogaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg - baledwyr megis Abel Jones (Bardd Crwst), Ywain Meirion, a Dafydd Jones, Llanybydder. Ym mhob maes, mae rhai unigolion yn rhagori, ac nid oedd

baledwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn eithriad. Roedd ymateb ffafriol cynulleidfa yn hanfodol i'r baledwyr, a oedd yn ddibynnol ar werthiant y baledi i greu bywoliaeth. Trafodir sut yr oedd cynulleidfaoedd yn ystyried y baledwyr hyn yn gyffredinol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Perthynas bwysig arall yn y cyfnod i'r baledwyr oedd y berthynas rhyngddynt hwy a'r argraffwyr. Dylid cofio fod potensial am werthiant uchel i rai baledi a fyddai yn ei dro yn golygu incwm sylweddol a gâi ei rannu rhwng y baledwyr a'r argraffwyr. Eir i'r afael â'r berthynas honno yn yr ail bennod gan fwrw golwg ar rai o'r argraffwyr a weithiai agosaf â'r baledwyr. I gloi'r bennod, trafodir y baledwragedd a ganai yn y cyfnod, gwragedd fel Rebecca Williams ac Elizabeth Davies, gan ofyn pa mor debyg neu wahanol oedd eu harddulliau a'u hagweddau o'u cymharu â'r baledwyr gwrywaidd.

Eir i'r afael â'r baledi serch yn y drydedd bennod; thema oesol sydd wedi diddanu cynulleidfaoedd ers canrifoedd, a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn sicr heb fod yn eithriad i'r arferiad hwn. Roedd yr ymddiddanion serch yn gyfrwng hynod boblogaidd yn y cyfnod ac mae'r nifer helaeth o faledi sydd wedi goroesi o'r cyfnod yn tystio iddynt apelio at gynulleidfaoedd y cyfnod. Trafodir eu harddull a'r perfformiad yn gyffredinol, yn ogystal â'r modd y defnyddid yr ymddiddanion i gyfleu stori gariad neu'r ymgomio am gariad mewn ffordd newydd a ffres. Dyna oedd nod y baledwyr yn ei hanfod, sef adrodd stori oesol ond drwy daenu golau newydd ac apelgar drosti. Trafodir, yn ogystal, ddelwedd a rôl y ferch yn y berthynas, garwriaethol ac yn y cartref, fel gwraig ac fel mam. Eir i'r afael hefyd â'r ferch mewn gwahanol gyfnodau yn ei bywyd – fel merch ifanc, ddeniadol yn chwilio am ŵr, yn torri'i chalon pan gaiff ei gwahanu wrth ei chariad, ac yn y blaen.

Baledi sy'n ymwneud â marwolaeth a drafodir yn y bedwaredd bennod. Cariad a marwolaeth yw'r ddwy thema yr ymdrinnir â hwy amlaf yng nghasgliad Cerddi Bangor, sy'n adlewyrchu'n glir hoffter cynulleidfaoedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg o'r baledi hyn. O dan ymbarél y baledi marwolaeth ceir is-themâu megis y damweiniau diwydiannol; hiraeth; llofruddiaeth; hunanladdiad; babanladdiad a cham-drin plant; lladrata a rôl y forwyn mewn llofruddiaethau. Mae nifer o'r baledi hyn wedi'u lleoli dros y ffin yn Lloegr, sy'n arwydd, o bosib, nad oedd digwyddiadau o'r fath mor niferus yng Nghymru o'i gymharu â gwledydd eraill. Ond mae'r apêl yn amlwg yn gref, ble bynnag fo'u lleoliad.

Eir i'r afael â bywyd domestig a ffasiynau'r cyfnod yn y bumed bennod. Amhosibl fyddai hepgor trafodaeth ar y testun hwn mewn astudiaeth sy'n ymwneud â merched. Gwelir nifer helaeth o ragfarnau ac ystrydebau'r cyfnod yn erbyn y merched yn amlygu'u hunain yn y bennod hon ac arferion megis yfed te, clebran a gwisg yn dod tan lach y baledwyr. Ceir cyfuniad o wawd a hiwmor yn y baledi hyn gan y baledwyr benywaidd a gwrywaidd fel ei gilydd. Ceir hefyd ymddiddanion ynghylch dewis priodi ai beidio â rhai baledi yn mynd yn groes i ystrydebau traddodiadol y cyfnod am ysfa merched ifainc i briodi. Ymdrinnir yn ogystal â'r bywyd priodasol a'r helbulon a oedd ynghlwm wrth y bywyd hwnnw. Sonnir am helbulon megis tlodi; meddwi; plant; gofalu am y cartref; salwch; trais a henaint. Er gwaethaf yr ystrydebau anochel sydd ynghlwm wrth y thema hon, ceir agwedd annisgwyl at y merched a'r dynion ar adegau.

Ym mhennod chwech, ymdrinnir â baledi sy'n canu am ddigwyddiadau ac elfennau rhyfeddol neu nodweddiadol o'r cyfnod. Cyfeirir at ddigwyddiadau megis rhyfel;

terfysgoedd; y frenhiniaeth, a rhyfeddodau megis stori Sarah Jacobs yn byw heb fwyd am ddeunaw mis. Unwaith yn rhagor, mae'r ddelwedd o'r ferch yn amrywio o'r naill is-thema i'r llall. Ni cheir yr ystrydebau traddodiadol yn y maes hwn i'r un graddau â'r meysydd eraill.

Deuir i gasgliad yn y seithfed bennod gan bwyso a mesur yr hyn a drafodwyd yn y penodau blaenorol. Trafodir dylanwad y baledwyr ar y gymdeithas, a rôl y merched fel baledwragedd ac fel canolbwynt a chymeriadau blaenllaw yn y baledi. Eir i'r afael, yn ogystal, â'r modd yr amrywia delwedd y ferch wrth newid o'r naill thema i'r llall ac o'r naill faledwr i'r llall. Gofynnir a oes gwir wahaniaeth yn arddull y baledwyr gwrywaidd a benywaidd wrth ganu, ac a oes yna wahaniaeth rhwng agwedd y baledwyr gwrywaidd a benywaidd at y ferch yn eu baledi? Trafodir yn gryno effaith yr alawon ar y baledi ac ar y perfformiad yn gyffredinol a phwysigrwydd yr alaw yn y berthynas rhwng yr alaw a'r geiriau. I gloi, ceir tabl o gasgliad Cerddi Bangor sy'n nodi pob baled sydd yn ymwneud â merched yn uniongyrchol. Rhydd y tabl gipolwg ar y nifer sylweddol o faledi sy'n ymwneud â merched yn y casgliad hwn. Nodir rhif y gyfrol a'r faled yn ogystal ag enw'r awdur, y cyhoeddwr, y dyddiad cyhoeddi, yr alaw ac enw'r faled yn llawn.

Roedd y wraig yn ganolbwynt ac yn ffigwr cyfarwydd yng nghymdeithas y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a'r ymdriniaeth ohoni yn y cyfnod hwnnw yn wahanol mewn rhai ffyrdd i'r hyn a geir mewn cyfnodau eraill. Wrth reswm, cyfeirir at faledi'r ddeunawfed ganrif hwnt ac yma, ond cafwyd cyfrol brintiedig eisoes ar y pwnc hwn gan Siwan M. Rosser, sef *Y Ferch ym Myd y Faled* (Caerdydd, 2005), felly ymdrinnir â'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn bennaf yn y traethawd hwn. Cafwyd newid yn

chwaeth y gynulleidfa, fel y tystia'r lleihad a gafwyd yn nifer y baledi a soniodd am y rhyfelwraig wrth gamu o'r ddeunawfed ganrif i'r bedwaredd ar bymtheg, er enghraifft. Nid yw'r themâu'n amrywio'n ddramatig o'r ddeunawfed ganrif oherwydd themâu oesol yw nifer o'r themâu dan sylw. Mae'r modd yr ymdrinia'r baledwyr â'r thema yn newid yn unol â mympwy eu cynulleidfaoedd. Amrywia'r ddelwedd draddodiadol hon wrth gamu o un faled i un arall. Ond yn gyffredinol, delwedd gref a geir o'r ferch o ystyried ei statws yn y gymdeithas ac ar yr aelwyd. Yn ei pherthynas ag eraill, gwelir iddi fod yn gyfartal â'i gŵr o ran pwysigrwydd ei llais yn y berthynas, os nad yn wir yn dal awenau'r aelwyd yn ei gafael.

Bwriad a nod y traethawd hwn, felly, yw sefydlu darlun clir o fywyd y wraig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg trwy gyfrwng y baledi, a thrwy gyfrwng casgliad Cerddi Bangor yn benodol.

**Diolchiadau**

Carwn ddiolch o galon i bawb a roddodd eu cymorth a'u cefnogaeth mor barod i mi. Oni bai amdanynt, ni fyddai'r traethawd hwn wedi gweld golau ddydd.

Rhaid diolch yn arbennig i Mr Wyn Thomas o Brifysgol Bangor am fy nhywys drwy gydol fy ymchwil ac am feithrin y diddordeb a'r brwdfrydedd ynof at faes cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru.

Diolch yn ogystal i staff Prifysgol Bangor, a staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth am eu hamynedd a'u cymorth parod.

Diolch yn ogystal i bawb a gyfrannodd at fy nealltwriaeth o fyd y baledi ac a'm tywysodd trwy'r broses o greu a dirnad y maes cyfoethog hwn.

**DATGANIAD**

Ni dderbyniwyd y gwaith hwn eisoes o ran sylwedd am unrhyw radd ac nid yw’n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnodwyd ………………………………………………. (ymgeisydd)
Dyddiad …………………………………………………...

GOSODIAD 1
Cyflwynir y traethawd hir hwn i fodloni’n rhannol y gofynion am radd ……………………………….
Llofnodwyd ………………………………………………. (ymgeisydd)
Dyddiad …………………………………………………...

GOSODIAD 2
Mae’r traethawd hir hwn yn ganlyniad fy ngwaith/ymchwiliadau fy hun, ac eithrio lle y nodir yn wahanol.
Cydnabyddir ffynonellau eraill gan droednodiadau sy’n rhoi cyfeiriadau eglur.
Atodir llyfryddiaeth.
Llofnodwyd ………………………………………………. (ymgeisydd)
Dyddiad …………………………………………………...

GOSODIAD 3
Yr wyf yn rhoi, drwy hyn, ganiatâd i’m traethawd hir, os derbynnir ef, fod ar gael i’w lun-gopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol ac i’r teitl a’r crynodeb fod ar gael i gyrff allanol.

Llofnodwyd ………………………………………………. (ymgeisydd)
Dyddiad …………………………………………………...

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | i |
| Crynodeb | iii |
| Diolchiadau | x |
| Datganiad | xi |
| Cynnwys | xii |
| Mynegai i’r lluniau a’r alawon | xiii |
| Pennod 1 – Cyfnod y Canu | 1 |
| Pennod 2 – Byd y Baledi | 21 |
| Pennod 3 – Y Baledi Serch | 52 |
| Pennod 4 – Baledi Marwolaeth | 85 |
| Pennod 5 – Bywyd Domestig a Ffasiynau’r Cyfnod | 118 |
| Pennod 6 – Y Rhinweddol a’r Rhyfeddol | 149 |
| Pennod 7 – Casgliadau | 180 |
| Tabl o’r Baledi yng nghasgliad Cerddi Bangor sydd yn Gysylltiedig â byd y Gwragedd yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg | 184 |
| Llyfryddiaeth | |

**MYNEGAI I'R LLUNIAU, Y TABLAU A'R ALAWON**


2.1. Abel Jones (Bardd Crwst)
2.2. Alawon a ddefnyddid ym maledi'r 19eg ganrif
2.3. 'Charity Mistress'
2.4. 'Joanna' a 'Llansannan'
2.5. Tabl beirdd, argraffwyr a gwerthwyr benywaidd yn y 18fed ganrif

3.1. 'Malldod Dolgellau'
3.2. 'Mentra Gwen'
3.3. *Can ddiddan sef hanes carwriaeth rhwng Cadben Llong o Dover, a merch i Esquire: A'r modd y cafodd efe hi yn briod, er gwaethaf ei wrthwynebwyr*
3.4. 'Bryniau'r Iwerddon'

4.1. 'Trymder'
4.2. *Can newydd alarus am y 258 o lowyr a gollodd eu bywydau, yn y ddamwain ofnadwy a gymerodd le dydd Mawrth, Medi 10, 1878, gerllaw Abercarn, sir Fynwy*
4.3. 'Gwel yr Adeilad'
4.4. 'Diniweidrwydd'
4.5. 'Anhawdd Ymadael'
4.6. Enghraifft o rybudd ar ddiwedd baled i beidio â dwyn gwaith baledwr
4.7. Enghraifft o faled o Gymru yn cael ei chanu'n Saesneg

5.1. 'Belisle March'
5.2. *Can newydd o ymddiddan rhwng dwy gymydoges, sef Gwen a Mari, bob yn ail pennill, un am briodi a'r llall am beidio*
5.3. 'Glan Meddwdod Mwyn'
5.4. 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn'
5.5. Gwragedd yng ngogledd Cymru mewn gwisg Gymreig yn yfed te (1900)

6.1. *Merched Cymru, eu rhagoriaeth ar holl ferched y byd*
6.2. *Marwolaeth fy Mam*
6.3. 'Bryniau'r Iwerddon'
6.4. 'Cwynfan Prydain'